# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 5 Ebrill 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant
7 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

## Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant

### Diwygiadau i Arholiadau Safon Uwch

**C4 Elin Jones:** Beth mae'r Ysgrifennydd Addysg a Phlant wedi'i wneud i sicrhau bod ysgolion yn gallu gweithredu'n llawn y diwygiadau newydd i arholiadau Safon Uwch? (OAQ4628)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Phlant (Rosemary Butler):** Rhybuddiwyd ysgolion a cholegau ym Mai 1999 am natur y newidiadau mewn cymwysterau a gyflwynir o Fedi 2000. Ar ôl hynny cyhoeddodd Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ddwy set o gyfarwyddyd manwl. Yr oedd yr arian ychwanegol i ysgolion a cholegau yn y flwyddyn sydd i ddod yn cymryd i ystyriaeth eu hasesiadau o'r cyllid ychwanegol a oedd yn angenrheidiol i roi'r newidiadau hyn ar waith.

### Gwaith Anfoddhaol mewn Gwyddoniaeth yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4

**C5 Phil Williams:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad ynghylch y ganran uchel o waith anfoddhaol a welir mewn gwyddoniaeth yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn adroddiad Estyn 1998-99? (OAQ4625)

**Rosemary Butler:** Yr wyf yn falch bod safonau'n foddhaol neu'n well yn y rhan helaethaf o ddosbarthiadau gwyddoniaeth yng nghyfnodau allweddol 3 a 4, ond siomedig yw bod safonau'n anfoddhaol mewn 12 y cant ohonynt. Heb ddymuno bod yn ddifater mewn unrhyw fodd, mae mwy o waith da mewn gwyddoniaeth, a llai o waith anfoddhaol nag a oedd dair blynedd yn ôl. Mae'r canfyddiadau diweddaraf yn ostyngiad o'u cymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ond mae angen inni gynnal y momentwm cadarnhaol tuag at safonau uwch, a amlygwyd dros y cyfnod hwn.

### Adnabod a Gweithredu ar gyfer Plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig

**C6 Lorraine Barret:** A oes gan Rosemary Butler unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynigion i fynd i'r afael â'r amser a gymerir rhwng adnabod a gweithredu mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru? (OAQ4548)

**Rosemary Butler:** Un amcan allweddol yn ein rhaglen wweithredu anghenion addysgol arbennig yw adnabod ac ymyrryd yn gynt o ran anghenion plant. Yn fwy penodol, mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig a Rheoliadau Anghenion Addysgol Arbennig 1994 yn gosod terfynau amser pendant, y dylai awdurdodau addysg lleol gwblhau gweithdrefnau asesu a datgan oddi mewn iddynt, gyda rhai eithriadau. Bydd Cod drafft diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori yng Nghymru yn ddiweddarach eleni.

### Gwasanaethau Gwybodaeth i Blant

**C7 Mick Bates:** Gan gyfeirio at y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ynghylch partneriaethau lleol datblygiad y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, pa safonau sydd wedi'u pennu ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth i blant? (OAQ4619)

**Rosemary Butler:** Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng swyddogion y Cynulliad, Choices in Childcare, Chwarae Teg a'r Ganolfan Gwybodaeth i Blant yn Wrecsam ynghylch y dewisiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau gwybodaeth a safonau ansawdd i blant yng Nghymru. Cyhoeddir cyfarwyddyd ar safonau yn ddiweddarach eleni.

### Diffyg Manyldeb Prosesau Gwerthuso Ysgolion Uwchradd

**C8 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Rosemary Butler sylw ynghylch diffyg manyldeb prosesau gwerthuso ysgolion uwchradd fel y'i nodwyd yn adroddiad Estyn 1998-99? (OAQ4620)

**Rosemary Butler:** Mae'r cyfeiriad yn yr adroddiad blynyddol yn un at y diffyg manylder mewn hunanwerthuso a'r goblygiadau o ganlyniad i hynny i gynllunio gwelliannau mewn ansawdd a chodi safonau cyflawniad. Dangosodd hyn fod ansawdd yr hunanwerthuso'n anfoddhaol mewn un ysgol ym mhob deg yn fras, ond pwysleisiodd hefyd fod penaethiaid ysgol ac uwch reolwyr yn adnabod eu hysgolion yn dda ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau hunanasesu'n dynodi cryfderau'r ysgol yn gywir ond maent yn llai trwyadl wrth ddynodi gwendidau neu feysydd i'w datblygu. Yr wyf yn sicr, a'r diffyg hwn wedi ei amlygu bellach gan Estyn, y bydd ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn rhoi sylw i'r mater hwn yn eu cynllunio lleol a strategol.

### Fframwaith Perfformiad Arfaethedig ar gyfer Athrawon

**C9 Jonathan Morgan:** Pa sylwadau a ddaeth i law ynghylch y fframwaith perfformiad arfaethedig ar gyfer athrawon? (OAQ4583)

**Rosemary Butler:** Derbyniais nifer o sylwadau ar y fframwaith rheoli perfformiad drafft ar gyfer athrawon, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori y llynedd. Nodwyd manylion y prif sylwadau a wnaethpwyd fel ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â'r rhai a godwyd mewn trafodaethau â mi, yn atodiad 1 i'r papur a gyflwynwyd gennyf i'r Pwyllgor Addysg Cyn-16 ar 1 Mawrth a nodai gynigion ar gyfer symud ymlaen â rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yng Nghymru.

### Prosiect CHOICES yn Sir Ddinbych

**C10 Peter Rogers:** A wnaiff Rosemary Butler sylw ynghylch y prosiect CHOICES yn Sir Ddinbych a'r ffordd o'i gyllido? (OAQ4581)

**Rosemary Butler:** Er fy mod yn cefnogi cynlluniau lleol a chymunedol fel CHOICES, sydd o gymorth wrth gyflenwi addysg bersonol a chymdeithasol yng Nghymru, yr wyf yn awyddus i adael y dull o weithredu'r fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol newydd a'r arfau a ddefnyddia athrawon yn fater i'w benderfynu gan awdurdodau addysg lleol ac ysgolion, fel y gellir cymryd i ystyriaeth materion lleol a chymunedol.

### Sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Athrawon

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** Pa fesurau y bydd Rosemary Butler yn eu cyflwyno i hybu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu athrawon? (OAQ4642)

**Rosemary Butler:** Yn y tair blynedd 1998-99 i 2000-01, yr ydym yn darparu hyd at £10.5 miliwn drwy'r grantiau ar gyfer y rhaglen cynnal addysg a hyfforddiant i wella medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu athrawon ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Mae hyn yn ychwanegol at y £12.5 miliwn a ddarperir dros dair blynedd drwy'r gronfa cyfleoedd newydd i hyfforddi athrawon a llyfrgellwyr ysgol i ddefnyddio TGCh yn well wrth ddysgu pynciau.

Er mwyn sicrhau bod yr offer cyfrifiadur diweddaraf ar gael i athrawon yr ydym hefyd wedi darparu tua £10.5 miliwn yn y cyfnod 1998-99 i 2000-01 i weithredu'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu.

Bydd athrawon hefyd yn elwa o'r canolfannau dysgu TGCh mewn ysgolion fel rhan o'n strategaeth TGCh Addysg ehangach, a gyhoeddais ar 20 Mawrth.

**Datganiad ar Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 1998-99**

**C12 Cynog Dafis:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad ynghylch adroddiad blynyddol Estyn ar gyfer 1998-99? (OAQ4640)

**Rosemary Butler:** Croesawaf y gwelliant cyffredinol mewn canlyniadau yn yr asesiadau cwricwlwm cenedlaethol ac mewn arholiadau cyhoeddus a llongyfarchaf yr ysgolion a'u disgyblion am eu holl waith caled.

Mae'r Prif Arolygwr yn nodi bod llawer iawn o anghysondeb o hyd mewn perfformiad ysgolion, oddi mewn a rhwng ysgolion. Mae awdurdodau addysg lleol yn dal i chwarae eu rhan wrth helpu ysgolion i wella ac mae llawer yn cael llwyddiant nodedig. Fodd bynnag, mae bylchau mawr o hyd y bydd yn rhaid eu cau er mwyn cyrraedd targedau cenedlaethol.

Gweithiodd sefydliadau addysg uwch yn galed i sicrhau bod eu cyrsiau hyfforddi athrawon yn cyflawni'r anghenion newydd a gyflwynwyd ym Medi 1998. Mae eu gwaith mewn partneriaeth ag ysgolion yn parhau i fod o ansawdd da. Mae gwasanaethau oedolion a ieuenctid yn ymateb yn dda i'r agenda ar gyfer dysgu gydol oes.

Ategaf sylwadau'r Prif Arolygwr pan gyfeiria at y llu o heriau a atebwyd gan y rhai sydd yn gweithio mewn addysg a hyfforddiant dros y blynyddoedd diwethaf hyn.

**Partneriaethau Gofal Plant**

**C13 Mick Bates:** Ym mha ffordd y mae Rosemary Butler yn bwriadu helpu partneriaethau gofal plant yng Nghymru i ddarparu gweithwyr datblygu llawn amser? (OAQ4618)

**Rosemary Butler:** Dyfarnwyd cyllid o £1.4 miliwn i bartneriaethau gofal plant lleol yn 1999-2000 a 2000-01 i gynnal y seilwaith sydd yn ofynnol er mwyn hybu gofal plant yn ardal pob awdurdod lleol.

At hynny, mae'r fenter gofal plant y tu allan i'r ysgol wedi ei rhoi ar gontract i'r cynghorau hyfforddi a menter i ddarparu cymorth seilwaith i ddarpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol sydd yn gymwys i'w chyllido o'r gronfa cyfleoedd newydd.

**Partneriaethau Gofal Plant (Gwasanaethau Gwybodaeth Lleol i Blant)**

**C14 Michael German:** Pa arian sydd ar gael i bartneriaethau gofal plant yng Nghymru ar gyfer datblygu gwasanaethau gwybodaeth lleol i blant? (OAQ4616)

**Rosemary Butler:** Yr oedd modd i'r partneriaethau datblygiad blynyddoedd cynnar a gofal plant lleol ddefnyddio'r £1.4 miliwn a oedd ar gael yn 1999-2000 o dan y strategaeth gofal plant genedlaethol i gynnal datblygiad gwasanaethau gwybodaeth i blant os gwelent angen yn lleol i wneud hynny. Dosberthir £1.4 miliwn pellach i'r partneriaethau er mwyn cynnal y strategaeth gofal plant yn 2000-01.

**Anghenion Addysgol Arbennig drwy Gyfrwng y Gymraeg**

**C15 Helen Mary Jones:** Beth mae Rosemary Butler yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod gan y rhai sydd yn dysgu plant ag anghenion addysgol arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg ddeunyddiau cystal â'r rhai sydd yn dysgu drwy gyfrwng y Saesneg? (OAQ4632)

**Rosemary Butler:** Bydd materion sydd yn ymwneud ag argaeledd deunyddiau dysgu ac asesu anghenion addysgol arbennig yn cael eu hystyried fel rhan o'n hadolygiad cyfredol o bolisi ac arfer anghenion

addysgol arbennig yng ngoleuni cyhoeddi 'Llunio Dyfodol Addysg Arbennig - Rhaglen Weithredu i Gymru' y llynedd. Mae'r Prif Ysgrifennydd a minnau wedi ysgrifennu at Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn yr wythnosau diwethaf gan gadarnhau ymrwymiad y Cynulliad i weithio gydag ef wrth roi sylw i amrediad o faterion o flaenoriaeth a ddynodwyd yng nghynhadledd ddiweddar y Bwrdd ar y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Hyrwyddo Materion Plant

**C16 Christine Humphreys:** Pa gynlluniau sydd gan Rosemary Butler i hyrwyddo materion plant yng Nghymru? (OAQ4592)

**Rosemary Butler:** Yr wyf wedi ymrwymo i roi'r flaenoriaeth uchaf i faterion plant a bydd cynllun strategol y Cynulliad, 'Gwell Cymru', yn rhoi lle amlwg iawn i blant a phobl ifanc ym mholisïau a rhaglenni'r Cynulliad yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Yr wyf yn arwain datblygiad strategaeth ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc, a drafodwyd gennym yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Medi.

Ymgynghorodd y Cynulliad ag amrediad o ddarparwyr gwasanaethau o'r sectorau statudol a gwirfoddol, a chyda phlant a phobl ifanc mewn chwe chyfarfod a gynhaliwyd ledled Cymru ym mis Mawrth. Bydd cynllun strategol drafft ar gael ar gyfer ymgynghori pellach yn gynnar yn yr hydref.

Rhoddir cymorth i sicrhau blaenoriaeth i faterion sydd yn effeithio ar blant drwy sefydlu comisiynydd plant, a wneir o dan arweiniad fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, fel yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Un o brif gyfrifoldebau'r comisiynydd o'r dechrau fydd gwneud adroddiadau blynyddol i'r Cynulliad, y bydd eu cynnwys yn fater i'w drafod a'i ystyried.

## Rhiant-gynhalwyr Annibynnol

**C17 Pauline Jarman:** A oes gan Rosemary Butler rôl o ran sicrhau bod pob awdurdod addysg lleol yn darparu adnoddau digonol ar gyfer rhiant-gynhalwyr annibynnol? (OAQ4630)

**Rosemary Butler:** Dechreuodd y Llywodraeth ymgynghori'r wythnos diwethaf ar y Mesur Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliau Anabledd mewn Addysg arfaethedig, y bwriada ei gyflwyno yn y sesiwn seneddol presennol. Os gwneir ef yn ddeddf, bydd y cynnig yn ein rhaglen weithredu anghenion addysgol arbennig—'Llunio Dyfodol Addysg Arbenning'—y dylai awdurdodau addysg lleol sicrhau bod rhiant-gynhaliwr ar gael i holl rieni plant ag anghenion addysgol arbennig yn dod yn amod cyfreithiol. Os bydd awdurdod addysg lleol yn methu â darparu gwasanaeth rhiant-gynhalwyr annibynnol digonol, bydd yn agored i sialens am fethu â chydymffurfio â dyletswydd statudol.

## Mastiau Ffonau Symudol gerllaw Ysgolion

**C18 Val Feld:** A yw Rosemary Butler wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd ynghylch lleoli mastiau ffonau symudol gerllaw ysgolion? (OAQ4545)

**Rosemary Butler:** Nac ydwyf. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach ar ôl cyhoeddi adroddiad Stewart ar ffonau symudol a gorsafoedd trosglwyddo ar 11 Mai.

## Penderfyniadau i Gau Ysgolion

**C19 Nick Bourne:** A yw Rosemary Butler yn fodlon ystyried rhoi mwy o lais i rieni ynghylch penderfyniadau i gau ysgolion, a wneir gan awdurdodau addysg lleol a'r Cynulliad ar hyn o bryd? (OAQ4623)

**Rosemary Butler:** Nac ydwyf. Mae gan rieni lais priodol eisoes o dan y gweithdrefnau statudol ar gyfer cau ysgolion. Dyfarnaf ynghylch pob achos yn ôl ei deilyngdod, gan gymryd i ystyriaeth yr holl ffactorau a dynnir i'm sylw, gan gynnwys barn rhieni.

### Gwasanaethau Gwybodaeth Lleol i Blant

**C20 Kirsty Williams:** Sut y mae Rosemary Butler yn bwriadu hybu datblygiad gwasanaethau gwybodaeth lleol i blant yng Nghymru? (OAQ4590)

**Rosemary Butler:** Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng swyddogion y Cynulliad, Choices in Childcare, Chwarae Teg a'r Ganolfan Gwybodaeth i Blant yn Wrecsam ynghylch y dewisiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau gwybodaeth a safonau ansawdd i blant yng Nghymru.

### Cynllun Strategol Ysgolion

**C21 Gareth Jones:** Sut y gwnaiff Rosemary Butler sicrhau, pan roddir arian ychwanegol i gyflogi athro/athrawes er mwyn cadw dosbarthiadau cyfnod allweddol 1 o dan 30, y caiff ei wneud mewn ffordd sydd yn gydnaws â chynllun strategol yr ysgol? (OAQ4622)

**Rosemary Butler:** Mae'r modd y mae ysgolion yn ymdrefnu er mwyn cyflawni eu swyddogaethau a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r terfyn statudol ar feintiau dosbarthiadau babanod yn fater i'w benderfynu'n lleol.

Darparwyd mwy na £30 miliwn o gyllid ychwanegol i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion ers Medi 1998 i'w helpu i gyrraedd y terfyn ar feintiau dosbarth. Wrth lunio eu ceisiadau am grant, bu'n ofynnol i awdurdodau addysg lleol drafod gyda phenaethiaid ysgol a chyrff llywodraethol ba newidiadau trefniadol sydd yn angenrheidiol mewn ysgol, os oes rhai o gwbl, er mwyn sicrhau bod y nifer yn eu dosbarthiadau babanod o dan 30. Gallai hyn gynnwys gwneud newidiadau yn nhrefniadaeth y dosbarthiadau mewn ysgolion, ehangu trefniadau dysgu oedran cymysg, adolygu dalgylchoedd neu newid niferoedd derbyn safonol, yn ogystal ag ymgeisio am grant ar gyfer athrawon ychwanegol, ystafelloedd dosbarth newydd neu newidiadau yn adeiladau'r ysgol. Felly, cafodd ysgolion gyfle i ystyried y goblygiadau strategol cyn cyflwyno cais am gyllid.

### Newidiadau i'r Flwyddyn Academaidd

**C22 Lorraine Barrett:** A oes gan Rosemary Butler unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynigion i asesu'r manteision posibl i ysgolion yng Nghymru, o ganlyniad i gyflwyno pedwar neu bum tymor yn y flwyddyn academaidd a threfnu bod y flwyddyn academaidd yn cydfynd â'r flwyddyn ariannol? (OAQ4547)

**Rosemary Butler:** Fel yr eglurais yn fy atebion ysgrifenedig ar 9 Rhagfyr a 2 Chwefror, mae cyfrifoldeb statudol dros benderfynu ynghylch pennu dyddiadau tymhorau ysgol yn perthyn i awdurdodau addysg lleol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ystyried y mater ac edrychaf ymlaen at weld ei chasgliadau.

### Gwendidau Monitro yn yr Adrannau Pwnc

**C23 Cynog Dafis:** A wnaiff Rosemary Butler sylw ynghylch y gwendidau monitro yn yr adrannau pwnc a nodwyd yn adroddiad Estyn 1998-99? (OAQ4641)

**Rosemary Butler:** Mae methiant rhai ysgolion i sefydlu gweithdrefnau monitro a hunanwerthuso manwl—gan ddefnyddio meini prawf penodol—yn ffactor allweddol sydd yn cyfyngu ar berfformiad yr ysgolion hyn. Yn rhy aml mae disgyblion mewn gwahanol ddosbarthiadau neu wahanol bynciau, oddi mewn i'r un ysgol, yn cyflawni canlyniadau amrywiol. Mae ymdrin â'r anghysondeb hwn yn her fawr i ysgolion ac athrawon. Mae'r grantiau ar gyfer y rhaglen cynnal addysg a hyfforddiant yn 2000-01 yn

parhau i gynorthwyo awdurdodau addysg lleol wrth helpu i ddarparu cymorth a hyfforddiant i ysgolion ac athrawon lle y mae angen dynodedig am hyfforddiant yn y maes hwn.

### Datganiadau

**C24 Jocelyn Davies:** A fydd Rosemary Butler yn bwrw golwg gofalus ar sefyllfa plant ag anghenion addysgol arbennig i sicrhau bod y rhai y mae arnynt angen datganiad yn ei gael? (OAQ4613)

**Rosemary Butler:** Mae'r Cynulliad, gyda chymorth grŵp ymgynghorol Cymru ar anghenion addysgol arbennig, ar ganol adolygu polisi ac arfer anghenion addysgol arbennig yng Nghymru wrth fwrw ymlaen â'r mesurau a ddisgrifiwyd yn 'Llunio Dyfodol Addysg Arbennig - Rhaglen Weithredu i Gymru' a gyhoeddwyd y llynedd. Mae copi o'r rhaglen weithredu yn y Llyfrgell.

Er mai lle awdurdodau addysg lleol yw penderfynu a oes angen i blentyn gael ei asesu neu dderbyn datganiad, mae gan rieni hawl statudol i apelio i'r tribiwnlys anghenion addysgol arbennig annibynnol os anghytunant â phenderfyniadau awdurdodau addysg lleol. Nid oes bwriad i ddileu'r amddiffyniad pwysig hwn.

### Adeiladau Ysgolion

**C25 Peter Black:** O ganlyniad i'r gyllideb, pa arian ychwanegol fydd ar gael y flwyddyn nesaf i fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion? (OAQ4552)

**Rosemary Butler:** Cyfeiriaf at ddatganiad yr Ysgrifennydd Cyllid ar 27 Mawrth 2000.

### Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr

**C26 Alun Cairns:** A oes gan Rosemary Butler unrhyw gynlluniau i ymweld ag Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr? (OAQ4554)

**Rosemary Butler:** Nac oes, ar hyn o bryd.

### Atgyweirio Adeiladau Ysgolion

**C27 Lynne Neagle:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad ynghylch dyrannu arian yn y gyllideb i atgyweirio adeiladau ysgolion? (OAQ4621)

**Rosemary Butler:** Cyfeiriaf at ddatganiad yr Ysgrifennydd Cyllid ar 27 Mawrth 2000.

### Cyflwr Adeiladau Ysgolion

**C28 Jenny Randerson:** A wnaiff Rosemary Butler ddatganiad ynghylch cyflwr adeiladau ysgolion Cymru? (OAQ4572)

**Rosemary Butler:** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi amcangyfrif bod yr ôl-groniad o atgyweiriadau ar adeiladau ysgolion tua £325 miliwn. Yn 2001-02 a 2002-03, mae cynlluniau gwario'r Cynulliad yn golygu y bydd tua £175 miliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion, y rhan fwyaf ohono i awdurdodau lleol. Gyda'r lefel hon o adnoddau bydd modd cael effaith sylweddol ar y broblem.

### Gwasanaethau Anghenion Addysgol Arbennig (Argaeledd)

**C29 Jocelyn Davies:** Sut y bydd Rosemary Butler yn sicrhau bod gwasanaethau anghenion addysgol arbennig ar gael i bob plentyn y mae arnynt angen y gwasanaethau hynny? (OAQ4634)

**Rosemary Butler:** Mae’r cyfrifoldeb statudol dros ddynodi a chyflawni anghenion yr holl blant sydd ag anghenion addysgol arbennig yn perthyn i awdurdodau addysg lleol ac ysgolion. Mae rhai dyletswyddau statudol hefyd yn cwmpasu awdurdodau iechyd ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol mewn cydweithrediad ag awdurdodau addysg lleol a drwy ateb ceisiadau am wasanaethau oddi wrthynt mewn perthynas â phlant sydd yn cael eu hasesu neu rai y cedwir datganiad amdanynt.

Cydnabyddwn fod angen gwella ansawdd a dull cyflenwi rhai gwasanaethau pwysig i blant ag anghenion addysgol arbennig. Mae’r rhaglen weithredu anghenion addysgol arbennig hefyd yn dynodi cydweithredu amlasiantaethol ar lefel leol a rhanbarthol, hyfforddiant anghenion addysgol arbennig cyn ac yn ystod gwasanaeth i athrawon, arbenigwyr, gweithwyr cynorthwyol a llywodraethwyr ysgol, a darparu therapïau a gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol amserol ac effeithiol i blant ag anghenion addysgol arbennig yn feysydd y dylid rhoi blaenoriaeth i’w gwella.

### Gwerthuso Athrawon

**C30 Jonathan Morgan:** A wnaiff Rosemary Butler amlinellu ei pholisi ynghylch gwerthuso athrawon yng Nghymru? (OAQ4584)

**Rosemary Butler:** Cyflwynwyd papur a oedd yn nodi fy nghynigion er mwyn bwrw ymlaen â rheoli perfformiad, gan gynnwys gwerthuso ar gyfer athrawon yng Nghymru i’r Pwyllgor Addysg Cyn-16 ar 1 Mawrth.

## Cwestiynau i’r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

### Taliadau Hylendid Llaeth

**C4 Jocelyn Davies:** A wnaiff yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ddatganiad am y rhagolygon ar gyfer dileu’r taliadau hylendid llaeth y mae cynhyrchwyr llaeth yn gorfod eu talu yng Nghymru ar hyn o bryd? (OAQ4562)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Yn uwchgynhadledd amaethyddiaeth y Prif Weinidog ar 30 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, Nick Brown, ei fod wedi penderfynu dileu’r taliadau glanweithdra llaeth yn Lloegr. Mae’r Cynulliad eisoes wedi penderfynu gwneud hynny yng Nghymru, ar yr amod y gellid goresgyn unrhyw anawsterau cyfreithiol. Dylai’r penderfyniad i ddileu’r taliadau yn Lloegr fod yn fodd i gael gwared â’r rhwystrau cyfreithiol gan ei fod yn creu sefyllfa gyffredin ynghylch taliadau ledled y Deyrnas Unedig.

### Cyngor y Gweinidogion

**C5 Elin Jones:** Pam na chyhoeddodd Christine Gwyther o flaen llaw i’r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ei bod yn bwriadu mynychu cyfarfod Cyngor y Gweinidogion ym Mrwsel ar 20 Mawrth? (OAQ4599)

**Christine Gwyther:** Mater i’r Weithrediaeth yw penderfynu ar bresenoldeb mewn cyfarfodydd o Gyngor y Gweinidogion ym Mrwsel.

### Yr Argyfwng yn y Sector Llaeth

**C6 Cynog Dafis:** A wnaiff Christine Gwyther ddatganiad ar ymdrech y Llywodraeth i ddod â’r argyfwng yn y sector llaeth i ben, drwy sicrhau fod y pris y mae ffermwyr yn ei gael am eu cynnyrch yn cynyddu? (OAQ4601)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn cyfarfod â chwmnïau prosesu llaeth a’r manwerthwyr mawr i weld beth ellir ei wneud i sicrhau bod ffermwyr llaeth yn cael gwell pris am eu cynnyrch. Bydd y strategaeth a nodir

yn y cynllun gweithredu ar gyfer y diwydiant llaeth hefyd yn helpu ffermwyr llaeth drwy hybu'r galw am eu cynnyrch a helpu cynhyrchwyr i berfformio hyd eithaf eu gallu.

Mae'r Llywodraeth newydd gyhoeddi pecyn o fesurau a fydd yn helpu ffermwyr, gan gynnwys ffermwyr llaeth. Bydd y Llywodraeth yn talu iawndal amaeth-arianyddol o £22 miliwn i ffermwyr llaeth yng Nghymru ac yn dileu taliadau hylendid llaeth.

### Cyllid Amaeth-ariannol

**C7 Jocelyn Davies:** Pa swm a fyddai ar gael yn benodol i ffermwyr llaeth yng Nghymru pe bai llywodraeth y DU yn hawlio swm llawn y cyllid amaeth-ariannol? (OAQ4567)

**Christine Gwyther:** Trafodwyd iawndal amaeth-arianyddol i'r sector llaeth yn uwchgynhadledd y Prif Weinidog a gynhaliwyd ar 30 Mawrth. Cytunodd y Llywodraeth i dalu uchafswm yr iawndal sydd ar gael i gynhyrchwyr llaeth yn y Deyrnas Unedig yn 2000, sef £22 miliwn. Amcangyfrifir bod cyfran Cymru o hynny oddeutu 10 y cant, neu £2.2 miliwn.

### Swyddi yn y Sector Prosesu Llaeth, Cig Oen a Chig Eidion

**C8 Janet Ryder:** Sut y mae Christine Gwyther yn bwriadu sicrhau cynnydd o 10 y cant mewn swyddi yn y sector prosesu llaeth, cig oen a chig eidion, yn unol â'r datganiad yn 'Gwell Cymru', o ystyried y dirwasgiad presennol yn y diwydiant llaeth? (OAQ4561)

**Christine Gwyther:** Lansiwyd cynlluniau gweithredu amaeth-bwyd ar gyfer y sectorau cig oen, cig eidion a llaeth y llynedd. Maent yn seiliedig ar ddatblygu gwerthiant cynhyrchion amaethyddol o Gymru mewn marchnadoedd proffidiol, ynghyd â phrosesu bwyd â gwerth ychwanegol yng Nghymru. Bydd y cynlluniau'n gymorth i wireddu'r targed ar gyfer 2003 o 5 y cant o dwf yn y diwydiannau llaeth, cig oen a chig eidion, a bydd eu gweithredu'n gymorth i sicrhau'r cynnydd o 10 y cant sydd yn crynhoi ein gweledigaeth o'r hyn yr hoffem ei gyflawni ymhen 10 mlynedd.

### Pwysau Economaidd ar Sectorau Amaethyddol

**C9 Helen Mary Jones:** Sut y mae'r trafferthion sydd yn wynebu'r sector llaeth yn cynyddu'r pwysau economaidd ar sectorau amaethyddol eraill? (OAQ4605)

**Christine Gwyther:** Mae'r effeithiau ehangach sydd yn wynebu'r diwydiant llaeth yn anodd i'w rhagweld gan eu bod yn dibynnu ar ffactorau fel faint o bobl sydd yn gadael y sector llaeth ac yn symud i'r sector da byw neu ddefaid. Bydd natur yr ymateb yn dibynnu ar ba mor hir fydd y problemau'n parhau.

### System Rhoi Nod ar Garcasau

**C10 Owen John Thomas:** Sut y mae Christine Gwyther yn bwriadu gwella'r system o roi nod ar garcasau er mwyn hybu cynnyrch o Gymru mewn marchnadoedd allforio? (OAQ4556)

**Christine Gwyther:** Gellir rhannu'r mathau o nodau a roddir ar garcasau'n dri phrif faes, sef dosbarthu i wirio siâp a lefelau braster, nodi'r lladd-dy drwy weithdrefn stampio carcasau a phasportau gwartheg yn achos cig eidion.

Bydd rheoliadau newydd ar labelu defaid, sydd i fod i ddod i rym yn ddiweddarach eleni, yn helpu i sicrhau y gellir olrhain yr holl gig oen Cymrerig. Bydd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol dynodi pob dafad a gafr â thag clust neu datŵ a fydd yn dynodi'r fferm lle y ganwyd yr anifeiliaid. Bydd hyn yn gymorth i hybu cynnyrch o Gymru mewn marchnadoedd tramor, er bod camau pwysig eraill wedi eu cymryd eisoes yn y maes hwn.

Cyflwynwyd ceisiadau i ddynodi arwydd daearyddol gwarchodedig i'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chig oen Cymru a chig eidion Cymru. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ceisiadau yn *Official Journal of the European Communities* a deallwn y dylai'r arwyddion daearyddol gwarchodedig fod wedi eu rhoi erbyn yr haf. Bydd hyn yn caniatáu ymgyrch hyrwyddo fwy byth ar gyfer cig oen a chig eidion Cymru, er y bydd y labelu'n ddarostyngedig o hyd i'r rheoliadau labelu cig eidion.

Mae Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyfyngedig yn gweithio gyda'r Comisiwn Cig a Da Byw ac Awdurdod Datblygu Cymru fel rhan o'r strategaeth amaeth-bwyd i hybu cig oen a chig eidion Cymru gartref a thramor. Gwnaethant gamau breision wrth hybu llwyddiant allforion a gwerthiant yn y farchnad gartref. Yn Chwefror cyhoeddais fod Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru Cyfyngedig wedi sicrhau cytundeb allforion £3 miliwn gyda chwmni gwasanaeth bwyd, Ven International Versmarkt, i werthu 350 tunnell fetrig o gig eidion di-asgwrn brandiedig o Gymru i'r Iseldiroedd. Ers cynnal Alimentaria, ffair fwydydd fawr, yn Barcelona ym Mawrth, sicrhawyd archeb bellach am 60,000 o garcasau oen ar gyfer Ebrill 2000, o'i chymharu â 40,000 y llynedd. Mae trafodaethau'n parhau â chwsmeriaid posibl i gyflenwi cig eidion Cymru i Sbaen.

### Menywod mewn Cymunedau Gwledig

**C11 Jane Davidson:** Sut y gall y Cynulliad gefnogi menywod mewn cymunedau gwledig? (OAQ4595)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn falch o gyhoeddi bod Mudiad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig wedi derbyn fy ngwahoddiad i gynnal ei drydedd ysgol haf ryngwladol ar ddeg ar ddatblygu gwledig i fenywod yng Nghymru rhwng 9 a 16 Medi. Bydd hyn yn rhoi cyfle rhagorol i gynrychiolwyr o Ewrop benbaladr hybu rôl bwysig benywod a'u teuluoedd mewn ardaloedd gwledig. Thema'r digwyddiad eleni yw 'rhwydweithio ac adeiladu partneriaeth ar gyfer datblygu gwledig'.

At hynny, mae swyddogion y Cynulliad yn siarad â benywod yng Nghymru ar hyn o bryd er mwyn dynodi eu hanghenion a'r problemau a wynebant wrth fyw a gweithio yng Nghymru. Trosglwyddir pryderon benywod o gymunedau gwledig i'r adrannau priodol fel y gellir eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol. Drwy hyn bydd gan y Cynulliad wybodaeth uniongyrchol, am y tro cyntaf, ar y cymorth a'r gefnogaeth y mae eu hangen er mwyn diwallu anghenion benywod o gymunedau gwledig yn well.

### Trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd

**C12 Peter Black:** Pa drafodaethau y bu i Christine Gwyther gynnal gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amaethyddiaeth , Pysgodfeydd a Bwyd ynglŷn â ffermwyr llaeth? (OAQ4559)

**Christine Gwyther:** Bûm yn gweithio'n agos â'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, Nick Brown, ar yr anawsterau cyfredol sydd yn wynebu ffermwyr llaeth. Cyfarfuasom ag arweinyddion ffermio yn uwchgynhadledd amaethyddiaeth y Prif Weinidog ddydd Iau, 30 Mawrth, pan drafodwyd amrediad o faterion, gan gynnwys mesurau sydd i'w cymryd er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant llaeth. Mae'r cyhoeddiadau a wnaethpwyd ar ôl y cyfarfod hwnnw yn darparu ar gyfer cymorth sylweddol i'r sector llaeth.

### Mentrau mewn Ardaloedd Trefol

**C13 Christine Chapman:** Pa fentrau sydd yn eu lle neu sydd i'w cyflwyno mewn ardaloedd trefol yng Nghymru er mwyn caniatáu gwell dealltwriaeth o'r materion sydd yn effeithio ar y Gymru wledig, cymunedau mewn ardaloedd gwledig a datblygu gwledig? (OAQ4540)

**Christine Gwyther:** Mae datganiad y bartneriaeth wledig, 'Cymru Wledig', a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn y llynedd, yn cydnabod nad oes ffin bendant rhwng y Gymru drefol a'r Gymru wledig ac yn cydnabod eu bod yn fwyfwy dibynnol ar ei gilydd. Felly, ni ellir ymdrin â'r heriau sydd yn wynebu ein cymunedau trefol a gwledig ar wahân i'w gilydd. Mae'r bartneriaeth wledig eisoes yn adolygu'r

blaenoriaethau allweddol a ddynodwyd yn 'Cymru Wledig', fel rhan o'i blaenraglen waith, er mwyn sicrhau dull mwy cyfeiriedig a manwl o ymdrin â'r problemau sydd yn wynebu cymunedau gwledig.

Hefyd, mae'r rhaglen Amcan 1 yn un o blith nifer o raglenni Ewropeaidd a fydd o fantais i gymunedau trefol a gwledig yng Nghymru. Mae'r ddogfen rhaglennu sengl Amcan 1 yn cydnabod bod gwahaniaethau sylfaenol rhwng yr heriau sydd yn wynebu cymunedau yng nghymoedd de Cymru a gorllewin Cymru, ond mae hefyd yn ategu'r angen i ledaenu ffyniant economaidd a hybu dealltwriaeth ym mhob rhan o'r ardal Amcan 1.

Gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet, yr wyf wedi ymrwymo i ddatblygu polisïau a rhaglenni economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn hybu gwell dealltwriaeth o wahanol anghenion ardaloedd trefol a gwledig ac yn cyfrannu at well dyfodol i bob cymuned.

### Llaethdai Cydweithredol

**C14 Ieuan Wyn Jones:** Sut y mae Christine Gwyther yn bwriadu annog ffermwyr llaeth i sefydlu eu llaethdai cydweithredol eu hunain? (OAQ4604)

**Christine Gwyther:** Mae ffurfio mentrau cydweithredol yn fater masnachol ar gyfer sefydliadau unigol yn y sector llaeth. Bydd y Cynulliad yn cefnogi mentrau o'r math yma yn unol â 'r strategaeth bwyd-amaeth, lle ceir potensial dilys ac arwyddocaol i gynorthwyo'r diwydiant.

Mae cymorth grant ar gael oddi wrth adran amaethyddiaeth y Cynulliad yn unol â'r cynllun datblygu masnach i gynorthwyo ffermwyr, tyfwyr a phroseswyr i wella eu galluoedd marchnata. Mae'r cynllun yn darparu cymorth o 50 y cant o gostau cymwys. Mae cyfarwyddiaeth bwyd-amaeth Awdurdod Datblygu Cymru hefyd yn darparu cymorth i ddatblygu grwpiau cynhyrchu.

### Olrhain a Labelu Cynhyrchion Cig o Gymru

**C15 Pauline Jarman:** A yw Christine Gwyther wedi cyflwyno sylwadau i'r Undeb Ewropeaidd ar fater olrhain a labelu cynhyrchion cig o Gymru? (OAQ4564)

**Christine Gwyther:** Mae'r Cynulliad yn awyddus i sicrhau y bydd cynhyrchion amaethyddol a bwydydd o Gymru'n cael eu hachredu o dan gynllun yr UE i warchod enwau bwydydd. Cyflwynwyd ceisiadau i ddiogelu dynodiad o arwydd daearyddol i'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â chig oen a chig eidion Cymru.

At hynny, cyfarfu fy swyddogion â'r Comisiynydd Ewropeaidd sydd yn gyfrifol am labelu cig eidion a'i swyddogion er mwyn cyflwyno sylwadau ynghylch y diwygiadau arfaethedig i labelu gorfodol o gig eidion yn Rheoliad Cyngor (CE) Rhif 820/97, sydd yn nodi'r darpariaethau cyfredol ar gyfer sefydlu system i ddynodi a chofrestru bucholion ac ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion.

### Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid (Archwiliadau ar Breiddiau)

**C16 Janet Davies:** Pa ganran o'r archwiliadau ar breiddiau sydd yn gymwys o dan y cynllun premiwm blynyddol defaid a gynhelir bellach a) heb fod hynny'n cael ei gyhoeddi ymlaen llaw a b) o fewn 48 awr? (OAQ4541)

**Christine Gwyther:** Ar hyn o bryd, mae 14 y cant o'r archwiliadau ar gyfer y cynllun premiwm blynyddol defaid yn rhai sydd heb eu cyhoeddi ymlaen llaw, ac mae 86 y cant o fewn 48 awr ar ôl rhoi hysbysiad.

## Y Clafr mewn Defaid

**C17 Peter Rogers:** Pa gynigion sydd gan Christine Gwyther i ymladd y clafr mewn defaid yng Nghymru, clefyd y rhagwelir a fydd yn ymledu'n epidemig? (OAQ4593) [R]

**Christine Gwyther:** Mae deddfwriaeth yn bod eisoes i helpu i reoli'r clafr mewn defaid. Mae'r Gorchymyn Clafr Defaid 1997 yn mynnu y bydd rhai sydd yn berchen ar ddefaid y mae'r clafr yn weladwy arnynt yn eu trin hwy a'r holl ddefaid eraill yn y praidd cyn gynted ag y gellir. Mae'n drosedd yw symud defaid y mae'r clafr yn weladwy arnynt i unrhyw eiddo neu oddi arno, ac eithrio i'w trin, eu lladd ar unwaith neu o dan awdurdod trwydded. Hefyd, gall awdurdodau lleol helpu ffermwyr i ddelio â'r clafr mewn defaid ar dir comin, pan gadarnheir achos o hynny, drwy orchymyn clirio'r tir comin a mynnu y caiff defaid eu trin am y clafr cyn caniatáu iddynt ddychwelyd.

## Cynnyrch a Addaswyd yn Enetig yn y Gadwyn Fwyd

**C18 David Davies:** Yng ngoleuni ymrwymiad Christine Gwyther i Gymru sydd heb ddeunyddiau a addaswyd yn enetig, pa gamau y mae'n bwriadu eu mabwysiadu i atal cynnyrch a addaswyd yn enetig rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd mewn mannau eraill? (OAQ4566)

**Christine Gwyther:** Daeth Asiantaeth Safonau Bwyd y DU i fodolaeth ddydd Llun 3 Ebrill ac mae'n gyfrifol am gynghori'r Cynulliad ar ddiogelwch a safonau bwyd. Jane Hutt sydd â chyfrifoldeb dros yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn y Cynulliad.

Byddwn yn disgwyl i'r corff annibynnol newydd hwn sicrhau bod hyder y cyhoedd yn niogelwch bwyd sydd ar werth yn cael ei gynnal a bod bwydydd a phrosesau newydd, gan gynnwys bwydydd a addaswyd yn enetig, yn cael eu hasesu'n fanwl o hyd o ran eu diogelwch yn unol â'r fframwaith rheoleiddiol. Byddwn hefyd yn disgwyl i'r Asiantaeth Safonau Bwyd hyrwyddo gwybodaeth a labelu manwl i hwyluso dewis y defnyddiwr.

## Bwyta'n Iach

**C19 Owen John Thomas:** Pa fentrau a gyflwynwyd gan Christine Gwyther i hybu'r agweddau bwyta'n iach sydd yn gysylltieidg â chynnyrch fferm o Gymru? (OAQ4555)

**Christine Gwyther:** Yr ydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd a sefydlwyd yn ddiweddar er mwyn sicrhau y caiff defnyddwyr wybodaeth glir, hawdd ei deall i'w helpu i wneud dewisiadau cytbwys ynghylch y bwyd a brynant, gan gynnwys bwyta'n iach. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am gynghori'r Cynulliad a'r diwydiant ynghylch diogelwch bwyd a maethiad ac ar y ddeddfwriaeth sydd yn berthnasol i labelu bwyd.

## Lleoliad Cnydau a Addaswyd yn Enetig

**C20 Michael German:** A yw Christine Gwyther yn ymwybodol o unrhyw gnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru a allai fod wedi cael eu tyfu yn unol â chaniatâd marchnata a roddwyd o dan ran C cyfarwyddeb 90/220/CEE, ac a wnaiff ddatgan pa system sydd yn ei lle er mwyn sicrhau ei bod hi a'r cyhoedd yn gwybod lle mae unrhyw gnydau o'r fath? (OAQ4539)

**Christine Gwyther:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Christine Chapman (OAQ4597) yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach heddiw.

## Iawndal Amaeth-ariannol

**C21 Cynog Dafis:** A wnaeth Christine Gwyther drafod iawndal amaeth-ariannol gyda Nick Brown a Roger Finney pan fynychodd gyfarfod Cyngor y Gweinidogion ym Mrwsel ar 20 Mawrth? (OAQ4602)

**Christine Gwyther:** Trafodasom ystod eang o faterion, gan gynnwys iawndal amaeth-ariannol.

### Twbercwlosis Ymhlith Anifeiliaid

**C22 Peter Rogers:** Pa strategaeth y mae Christine Gwyther yn ei hargymell er mwyn ymladd twbercwlosis ymhlith anifeiliaid mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru? (OAQ4594)

**Christine Gwyther:** Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi strategaeth bum pwynt ar waith i ymchwilio i achosion y clefyd ac i ymdrin ag ef. Elfennau'r strategaeth yw lleihau'r perygl i bobl ac ymchwilio i gysylltiadau posibl â iechyd dynol; cyflawni ymchwil er mwyn datblygu brechlyn; deall yn well sut y trosglwyddir heintiau; atal ei ymlediad ymysg gwartheg; a chyflawni prawf lladd moch daear mewn rhai ardaloedd a ddetholir.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cynnull fforwm twbercwlosis, y mae'r Cynulliad yn cymryd rhan ynddo ynghyd â chyfranogion o bob rhan o'r diwydiant, gan gynnwys Undeb Amaethwyr Cymru, NFU Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, yn ogystal â chyfranogion o fudiadau lles fel Ffederasiwn Cenedlaethol y Grwpiau Moch Daear. Mae'r fforwm hwn yn gyfle i gyfnewid barn a phrofiad yn agored ar y pwnc hwn, ac mae'n ystyried ffyrdd ymlaen tra'n disgwyl canlyniadau'r gwaith gwyddonol.

### Olrhain Anifeiliaid yn Electronig

**C23 Gareth Jones:** Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn ag olrhain ein hanifeiliaid yn electronig? (OAQ4612)

**Christine Gwyther:** Nid yw'r Cynulliad yn gofyn fod anifeiliaid yng Nghymru yn cael eu hadnabod trwy ddyfais electronig. Fodd bynnag, nid yw'n rhwystro cynhyrchwyr yng Nghymru rhag defnyddio dulliau adnabod electronig yn ychwanegol i'r tagiau sydd yn ofynnol o dan ddeddfwriaeth adnabod anifeiliaid.

### Monitro BSE

**C24 Brian Gibbons:** A yw Christine Gwyther yn dal i fonitro nifer yr achosion BSE yng Nghymru? (OAQ4571)

**Christine Gwyther:** Ydwyf. Mae amlder yr achosion o BSE a amheuir ac a gadarnheir a adroddir ym Mhrydain yn cael ei gofnodi a'i gadw'n ganolog. Yr wyf yn falch o ddweud bod niferoedd yr achosion o BSE a gadarnhawyd yng Nghymru wedi parhau i ddisgyn y llynedd.

### Iawndal Amaeth-ariannol (Mantais i Ffermwyr Llaeth Cymru)

**C25 Phil Williams:** Ym mha ffordd y byddai ffermwyr llaeth Cymru ar eu hennill pe bai llywodraeth y DU yn hawlio swm llawn yr iawndal amaeth-ariannol sydd ar gael? (OAQ4568)

**Christine Gwyther:** Byddant yn elwa'n ariannol gan y bydd y Llywodraeth yn talu uchafswm yr iawndal sydd ar gael i gynhyrchwyr llaeth yn y DU yn 2000, sef tua £22 miliwn. Amcangyfrifir bod cyfran Cymru o hynny'n 10 y cant, neu £2.2 miliwn.

### Strategaeth Bwyd Maethlon

**C26 Brian Gibbons:** A oes gan Christine Gwyther unrhyw gynlluniau i gynnal trafodaethau gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar hybu strategaeth bwyd maethlon ar gyfer Cymru? (OAQ4570)

**Christine Gwyther:** Mae'r cyfrifoldeb yn y Cynulliad dros yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn perthyn yn awr i Jane Hutt.

Cyfarfu Jane Hutt a minnau'n ddiweddar ag Ann Hemingway, cadeirydd pwyllgor ymgynghorol yr Asiantaeth Safonau Bwyd i Gymru ac, ymysg pethau eraill, trafodasom rolau'r Cynulliad a'r Asiantaeth Safonau Bwyd mewn maethiad.

Wrth ddiffinio'r neges addysg iechyd ar faethiad, bydd yn bwysig i'r Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Cynulliad gydweithio'n agos â'i gilydd. Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynghori'r Cynulliad ar gynnwys maethol bwydydd a'r hyn sydd yn creu deiet cytbwys.

Bydd concordat rhwng y Cynulliad a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn diffinio eu priod rolau a chyfrifoldebau. Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno ei datganiad o amcanion ac egwyddorion cyffredinol i'r Cynulliad i'w gytuno o fewn y tri mis nesaf, a bydd hyn yn cynnwys ei chynigion ar gyfer maethiad.

## Y Diwydiant Llaeth (Ffigurau Cyflogi)

**C27 Gareth Jones:** Faint o bobl y mae'r diwydiant llaeth yn eu cyflogi yng Nghymru? (OAQ4611)

**Christine Gwyther:** Mae ffigurau diweddaraf yr arolwg cyflogaeth blynyddol ar gyfer 1997 yn dangos bod 2,500 o bobl yn gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu cynnyrch llaeth.

Yn ogystal, mae tua 3,000 o weithwyr fferm yn cael eu cyflogi, yn ôl cyfrifiad amaethyddol a garddwriaethol mis Mehefin 1999, ar ffermydd lle y prif weithgaredd yw ffermio llaeth. Nid yw hynny'n cyfrif y 7,300 o ffermwyr, partneriaid a chyfarwyddwyr, gan gynnwys partneriaid priod, sydd yn gweithio ar y ffermydd hynny.

## Camau i Gynorthwyo Ffermwyr Llaeth

**C28 Peter Black:** Pa gamau y mae Christine Gwyther yn eu cymryd i gynorthwyo ffermwyr llaeth? (OAQ4558)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn cynorthwyo'r diwydiant llaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys gweithio i ddileu'r taliadau arolygu glanweithdra llaeth yng Nghymru; sicrhau iawndal amaeth-arian eleni i'r sector llaeth; a rhoi'r strategaeth amaeth-bwyd ar waith drwy ddatblygu'r prosbectws llaeth, y cynllun gweithredu llaeth, a drwy ddyfarnu grantiau i brosiectau prosesu llaeth.

## Papur Gwyn Ewropeaidd ar Ddiogelwch Bwyd

**C29 Geraint Davies:** Pa drafodaethau y mae Christine Gwyther wedi'u cynnal gyda'i ffigwr cyfatebol yn San Steffan i holi a drafodwyd llaeth a chynnyrch llaeth pan y cyfarfu Cyngor y Gweinidogion i drafod y Papur Gwyn Ewropeaidd ar ddiogelwch bwyd? (OAQ4578)

**Christine Gwyther:** Yr oeddwn yng nghyfarfod Cyngor y Gweinidogion ar 20 Mawrth pan drafodwyd y Papur Gwyn ar ddiogelwch bwyd. Yr oedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr egwyddorion cyffredinol a dull gweithredu'r Comisiwn, ac nid ar nwyddau penodol fel llaeth a chynhyrchion llaeth.

## Gwerth Uchel y Bunt

**C30 Phil Williams:** Sut y mae gwerth uchel y bunt yn cyfrannu at y prisiau isel y mae ffermwyr llaeth Cymru yn eu cael am eu cynnyrch? (OAQ4569)

**Christine Gwyther:** Yn yr un modd â diwydiannau eraill, effaith codiad yng ngwerth sterling yw cynyddu pwysau cystadleuol, wrth i brisiau a bennwyd mewn sterling godi mewn ariannoedd tramor er enghraifft yr ewro, ac i brisiau a bennwyd mewn ariannoedd tramor ddisgyn mewn sterling. Pennir y pris ymyrryd ar gyfer menyn a llaeth sgim mewn ewros, felly mae cynnydd yng ngwerth sterling yn lleihau gwerth y cymorth anuniongyrchol i'r diwydiant llaeth.